Enw



DARLLENWCH
Genesis 42 i 44




ADNOD ALLWEDDOL
Effesiaid 4: 32

*Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 2 Benjamin a'r Newyddion Drwg.

Cafodd brodyr Joseff sioc o weld yr arian yn eu sachau bwyd. Roedden nhw'n ofni beth fyddai'n digwydd pe baen nhw'n mynd yn ôl i'r Aifft. Ond, gan fod Simeon yn y carchar, roedd rhaid iddyn nhw fynd.



Fe ddywedon nhw wrth eu tad Jacob, a oedd hefyd yn cael ei alw'n Israel, y byddai'n rhaid i Benjamin fynd gyda nhw. Roedd yr hen ddyn yn drist iawn – roedd arno ofn y byddai rhywbeth yn digwydd i Benjamin.

**C Llanwch y bylchau yn enwau tri o feibion Jacob.**


6

1) __ __ s __ __    2) S __ m __ __ __    3) __ __ __ j __ __ __ n

Yn y pen draw, roedd rhaid i Jacob adael i Benjamin fynd gan nad oedd ganddynt fwy o fwyd. Felly, i ffwrdd â nhw â dwywaith cymaint o arian ac anrhegion i'r 'dyn yn yr Aifft'.

**C Ymhlith yr anrhegion roedd:**


4



a



____ ____ ____    ____ ____ ____ ____



Pan gyrhaeddon nhw, cawson nhw fynd i gartref Joseff. Ar ôl rhoi'r anrheg iddo, fe wnaethon nhw ymgrymu (bowio) o flaen Joseff. (Ydych chi'n cofio beth ddigwyddodd ym mreuddwyd Joseff?) Holodd Joseff ei frodyr am eu tad a siaradodd â Benjamin. Roedd hyn i gyd yn ormod i Joseff: rhuthrodd allan a chrio. Er i'w frodyr fod yn greulon wrtho, roedd yn dal yn eu caru, yn enwedig Benjamin ei frawd bach a oedd yn frawd cyfan iddo. Dylai'r stori hon wneud i ni feddwl cymaint y mae Duw yn ein caru ni a'i fod eisiau maddau i ni am y pethau drwg rydyn ni wedi'u gwneud.


**C** **Rhowch y geiriau cywir yn y frawddeg isod. (Darllenwch yr Adnod Allweddol).**


maddau      maddeuodd

"_ _ _ _ _ _ i'ch gilydd fel y _ _ _ _ _ _ _ _ _ Duw yng Nghrist i chwi"

2

Cyn hir, roedd y brodyr yn barod i gychwyn am adref. Y tro hwn, cuddiodd Joseff ei gwpan arian arbennig yn sach Benjamin. Gadawodd iddynt adael y ddinas ac yna anfonodd ei swyddog ar eu hôl. Daliodd y swyddog i fyny â nhw a'u cyhuddo o ddwyn y cwpan! Roedden nhw i gyd yn gwadu eu bod wedi dwyn y cwpan ac, os oedd un ohonynt wedi ei ddwyn, byddai hwnnw'n gorfod marw! Chwiliodd y swyddog trwy eu sachau ac, yn wir, roedd y cwpan yn sach fwyd Benjamin. Roedden nhw mewn trwbwl! Sut allen nhw fynd yn ôl at eu tad heb Benjamin? Roedden nhw'n siwr bod Duw yn eu cosbi am fod mor gas wrth Joseff slawer dydd. Mae'n beth ofnadwy pan fydd pobl yn torri deddfau Duw ac yna'n gorfod byw gyda'r hyn y maen nhw wedi'i wneud! Mae Duw yn barod i faddau i ni os ydyn ni'n edifarhau am ein pechodau ac yn ymddiried yn Iesu Grist sydd wedi marw i gymryd ein pechodau ni.





**C** **Llanwch y Grid Geiriau:-**

1. Brawd Joseff oedd â'r un tad a'r un fam ag ef.
2. Un o enwau tad Joseff.
3. Enw arall tad Joseff.
4. Y brawd a gafodd ei gadw yn y carchar.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | J | | | | |
| 2 | | | | O | | | | |
| | | 3 | | S | | | | |
| 4 | | | | E | | | | |
| | | | | FF | | | | |

8

cyfanswm